***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

## ATODLEN 14

## RHYDDHAD AR GYFER CAFFAELIADAU PENODOL O ANHEDDAU

### RHAN 2

### RHYDDHAD AR GYFER CAFFAELIADAU PENODOL O ANHEDDAU

*Rhyddhad pan fo masnachwr eiddo yn caffael gan gynrychiolwyr personol*

5 (1) Pan fo masnachwr eiddo yn caffael annedd gan gynrychiolwyr personol unigolyn ymadawedig, mae'r caffaeliad wedi ei ryddhau rhag treth os bodlonir yr amodau a ganlyn (ond gweler is-baragraff (3) am ddarpariaeth ynghylch rhyddhad rhannol).

(2) Yr amodau yw—

(a) y gwneir y caffaeliad yng nghwrs busnes sy'n cynnwys caffael anheddau gan gynrychiolwyr personol unigolion ymadawedig, neu'n ymwneud â hynny,

(b) bod yr unigolyn ymadawedig wedi meddiannu'r annedd fel ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa ar ryw adeg yn ystod y cyfnod o 2 flynedd sy'n dod i ben â'r dyddiad y bu farw'r unigolyn,

(c) nad yw'r masnachwr eiddo yn bwriadu—

(i) gwario mwy na'r swm a ganiateir ar adnewyddu'r annedd,

(ii) rhoi les neu drwydded ar gyfer yr annedd, na

(iii) caniatáu i unrhyw un neu ragor o'i brif arferyddion neu ei gyflogeion (neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un neu ragor o'i brif arferyddion neu ei gyflogeion) feddiannu'r annedd, a

(d) nad yw arwynebedd y tir y mae'r masnachwr eiddo yn ei gaffael yn fwy na'r arwynebedd a ganiateir.

(3) Pan fodlonir yr amodau yn is-baragraff (2)(a) i (c) ond bod arwynebedd y tir a gaffaelir yn fwy na'r arwynebedd a ganiateir, cymerir mai'r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y caffaeliad yw'r swm a gyfrifir drwy ddidynnu gwerth marchnadol yr arwynebedd a ganiateir o werth marchnadol yr annedd.

(4) Yn y paragraff hwn—

(a) mae cyfeiriadau at gaffael yr annedd yn gyfeiriadau at gaffael, drwy drosglwyddo, brif fuddiant yn yr annedd, a

(b) mae cyfeiriadau at werth marchnadol yr annedd a'r arwynebedd a ganiateir yn gyfeiriadau at werth marchnadol y prif fuddiant hwnnw yn yr annedd a gwerth marchnadol y buddiant hwnnw i'r graddau y mae'n ymwneud â'r arwynebedd hwnnw.